Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Beth yw Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCC)

Mae Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCC) yn fudd-dal a delir i bobol sy'n rhy sâl neu anabl i weithio ac sy'n cwrdd ag amodau arbennig. Fe'i telir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Ar gyfer y rhan fwyaf o hawliadau newydd, mae'n disodli Budd-dal Analluogrwydd a Chymhorthdal Incwm a delir i bobol sy ddim yn ddigon da i weithio. Os ydych chi eisoes yn derbyn Budd-dal Analluogrwydd a Chymhorthdal Incwm, fe allwch barhau i'w dderbyn ond bydd eich hawliad yn cael ei drosglwyddo i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar ryw adeg.

Mae dau fath o LCC. Efallai y gallwch dderbyn un o'r ddau neu'r ddau, yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Y ddau fath o LCC yw:

- LCC Cyfrannol, yr ydych yn gallu ei gael os ydych wedi talu digon o gyfraniadau yswiriant gwladol. Sut bynnag, os ydych chi'n dod yn analluog i weithio cyn eich bod yn 20 oed (25 mewn rhai achosion), nid oes rhaid i chi gwrdd â chyfraniadau'r yswiriant gwladol.
- LCC yn seiliedig ar incwm sy'n cael ei dalu os yw'ch incwm a'ch cyfalaf yn ddigon isel.

Pwy sy'n gallu cael LCC

Fe allwch gael LCC:

- os ydych yn 16 neu'n hŷn, ac yn iau nag oed pensiwn, a
- os na allwch weithio oherwydd salwch neu anabledd, a
- os nad oes gennych hawl i Dâl Salwch Statudol (SSP), a
- os ydych wedi bodloni profion arbennig - gweler tudalen 2.

Rhaid i chi a'ch partner **beidio** derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn. Rhaid eich bod chi'n byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer. Ar gyfer LCC yn seiliedig ar incwm, ni ddylai fod unrhyw reolaeth fewnfudo ar eich cyfnod yma a fyddai'n eich atal rhag cael y budd-dal.

Sut i wneud cais am LCC

Fe allwch hawlio LCC trwy ffonio'r Ganolfan Byd Gwaith. Eu rhif ffôn yw: 0800 055 6688 neu ffôn destun: 0800 023 4888. Mae yna rif llinell yn yr iaith Gymraeg ar: 0800 012 1888. Ar ôl iddyn nhw siarad â chi, fe anfonan nhw ddatganiad o'ch sefyllfa er mwyn i chi ei wirio ond nid oes rhaid i chi lofnodi na'i ddychwelyd.

Fe allwch wneud cais ar-lein hefyd ar wefan y Ganolfan Byd Gwaith: www.jobcentreplus.gov.uk. Neu fe allwch wneud cais yn ysgrifenedig. Gofynnwch i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol am fanylion sut i wneud hyn.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Fe fydd rhaid i chi ddarparu gwybodaeth arbennig wrth wneud eich cais. Mae hyn yn cynnwys:

- tystysgrif feddygol ddilys sy'n nodi pam na allwch chi weithio.
- eich rhif yswiriant gwladol
- tystiolaeth o bwy ydych, er enghraifft, trwydded yrru neu dystysgrif geni
- unrhyw wybodaeth arall y bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn gofyn amdano.

Beth sy'n digwydd ar ôl i chi wneud eich cais

Yn ystod y 13 wythnos gyntaf

Pan fyddwch chi'n gwneud cais am LCC am y tro cyntaf, fe fydd cyfnod a elwir yn **gyfnod asesiad 13 wythnos** yn cychwyn. Yn ystod yr amser hwn, bydd gweithwyr iechyd gofal proffesiynol fel arfer yn profi sut mae'ch salwch neu'ch anabledd yn effeithio'ch gallu i weithio a chyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd. Gelwir hyn yn **Asesiad Gallu i Weithio (WCA)**

Mae yna ddwy ran i'r WCA er na fydd yn rhaid i bawb wneud pob un ohonynt. Gelwir y profion hyn yn:

- asesiad o allu cyfyngedig i weithio
- asesiad o allu cyfyngedig ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith.

Asesiad o allu cyfyngedig i weithio
Fe fydd y rhan fwyaf o bobl yn cael archwiliad meddygol i benderfynu os ydyn nhw'n bodloni'r asesiad o allu cyfyngedig i weithio. Mae yna rai pobol nad oes angen archwiliad meddygol arnynt oherwydd ystyrir yn awtomatig bod eu gallu i weithio yn gyfyngedig. Dywedir wrthych os oes angen archwiliad meddygol arnoch.

Mae'r prawf hwn yn edrych ar eich gallu i gyflawni rhai gweithgareddau arbennig. Mae'n edrych ar ffactorau corfforol yn ogystal â phroblemau iechyd meddwl sydd gennych sy'n eich gwneud yn analluog i weithio. Os nad ydych yn bodloni'r asesiad o allu cyfyngedig i weithio, fyddwch chi ddim yn gymwys ar gyfer LCC. Efallai y byddwch wedyn yn ystyried gwneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith yn lle, er fe allwch apelio yn erbyn y penderfyniad.

Asesiad o allu cyfyngedig ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith
Gelwir yr ail brawf yn asesiad o allu cyfyngedig ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith. Fel arfer, mae asesiad o allu cyfyngedig ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith yn cael ei wneud ar yr un pryd â'r asesiad o allu cyfyngedig i weithio er bod y prawf ychydig yn wahanol. Ar ôl y prawf yma, os oes anabledd difrifol gennych, mwy na thebyg y cewch eich rhoi mewn grŵp a elwir yn **grŵp cefnogi**. Os nad ydych yn y grŵp cefnogaeth, fe fyddwch yn cael eich rhoi yn y **grŵp gweithgareddau cysylltiedig â gwaith**.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith
Os ydych wedi cael eich gosod yn y grŵp gweithgareddau cysylltiedig â gwaith, fe gewch chi **gyfweliad cychwynnol sy'n canolbwyntio ar waith**. Bydd hwn yn digwydd rhyw wyth wythnos ar ôl eich cais. Sut bynnag, ni fydd yn rhaid i chi gael cyfweliad yn canolbwyntio ar waith:

- os ydych yn cael eich gosod yn y grŵp cefnogi yn dilyn eich asesiad o allu cyfyngedig ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith, neu
- os ydych yn fenyw sy wedi cyrraedd oed pensiwn y wladwriaeth,
- os ydych yn ddyn sy wedi cyrraedd oed pensiwn y wladwriaeth menyw gyda'r un dyddiad geni â chi

Os penderfynir eich bod yn gymwys i dderbyn LCC, efallai y bydd yn rhaid i chi gael mwy o gyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith bob mis.

Gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith
Os ydych yn y grŵp hwn, mae'n bosib y bydd angen i chi gyflawni gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith yn ogystal â chyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol os ydych yn:

- rhiant sengl gyda phlentyn o dan 5 oed. (Dim ond yn ystod yr amserau ysgol arferol y mae'n rhaid i rieni sengl sydd â phlentyn o dan 13 oed gyflawni gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith)
- ofalwr sy'n derbyn Lwfans Gofalwyr neu bremiwm gofalu fel rhan o'ch Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Gallai gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith fod yn waith gwirfoddol, treialon gwaith neu raglen hyfforddiant, ond ni fydd yn rhaid i chi geisio am swydd neu ymgymryd â thriniaeth feddygol.

Ar ôl y 13 wythnos gyntaf
Ar ôl y 13 wythnos gyntaf, os gwelir fod gennych y gallu cyfyngedig i weithio, fe fyddwch yn parhau i dderbyn y LCC. Fe gewch chi fwy o arian nag a gawsoch chi yn ystod y 13 wythnos gyntaf o'ch cais.

Faint yw LCC

Mae'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCC) y byddwch yn ei dderbyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, sef:

- a ydych yn derbyn LCC Cyfrannol neu LCC yn seiliedig ar incwm, neu'r ddau
- a ydych yn 13 wythnos gyntaf eich hawliad ai peidio
- beth yw lefel y cymorth yr ystyrir fod ei angen arnoch ar ôl y 13 wythnos gyntaf
- os ydych yn 25 oed neu drosodd ai peidio
- os ydych yn byw gyda phartner. Nid oes wahaniaeth os ydynt o ryw wahanol neu o'r un rhyw.

Bydd y rhan fwyaf o bobol yn derbyn llai o arian yn ystod 13 wythnos gyntaf eu cais.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Ar ôl 13 wythnos, os ydych yn gymwys i dderbyn LCC, fe dderbyniwch chi swm ychwanegol a elwir yn **gydran**. Os ydych wedi'ch gosod yn y grŵp sy'n canolbwyntio ar waith, fe gewch chi gydran gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith. Os ydych chi wedi'ch gosod yn y grŵp cymorth, fe gewch chi gydran cymorth sy'n fwy o arian na'r gydran gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith.

Os ydych chi'n derbyn LCC sy'n gysylltiedig ag incwm, fe gewch chi fwy o arian os ydych chi'n byw gyda phartner. Efallai hefyd y byddwch yn gymwys i dderbyn un o bedwar premiwm, yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Er enghraifft, efallai y cewch chi bremiwm anabledd difrifol. Os ydych chi'n berchen ar eich cartref eich hun, efallai y cewch chi gymorth gyda chostau eich tŷ, er enghraifft, cymorth gyda llog y morgais.

Fe allwch chi wybod mwy am gyfraddau presennol LCC trwy wefan Canolfan Byd Gwaith yn: www.jobcentreplus.gov.uk

Ôl-ddyddio LCC

Os oedd hawl gennych i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCC) cyn i chi hawlio, efallai y byddwch yn medru ei gael am gyfnod cynharach. Gelwir hyn yn **ôl-ddyddio**. Mae modd ôl-ddyddio LCC am hyd at dri mis cyn dyddiad eich cais.

Sut mae LCC yn cael ei dalu

Fel arfer, mae Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCC) yn cael ei dalu yn syth i mewn i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Os nad ydych yn medru agor cyfrif, neu os ydych yn cael trafferth gyda'r math yma o daliad, dylech ddweud wrth eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith. Mae'n bosib talu'r budd-dal trwy siec mewn rhai amgylchiadau.

Gweithio tra'n cael LCC

Efallai y byddwch yn gallu gwneud rhai mathau o waith yn ogystal â derbyn LCC. Cyfeirir at hyn fel **gwaith a ganiateir**. Fel arfer mae'n waith o lai na 16 awr yr wythnos ble nad yw'ch enillion yn fwy na swm penodol. Gwiriwch pa waith y gallwch chi ei gyflawni gyda'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol neu swyddfa Cyngor ar Bopeth.

Problemau gyda LCC

Mae'r rheolau ynglŷn â phwy all hawlio LCC a faint gewch chi yn gymhleth iawn. Os ydych chi'n cael trafferth gyda'ch cais, er enghraifft, oherwydd nad ydych yn deall beth sydd angen i chi ei wneud, fe ddylech chi gael cyngor oddi wrth eich swyddfa Cyngor ar Bopeth agosaf.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

• Budd-daliadau i bobl sy'n sâl neu'n anabl

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 22 Mehefin 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr